**CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW**
***LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL***

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fercher, Ionawr 28ain 2015 am 7.30 yh yng Nghanolfan Bro Cernyw

Ymddiheuriadau: Cyng D O Roberts, Steve Teale

Presennol: Elen H Edwards (Cadeirydd), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ifor G Edwards, Gwyn Williams, Ian W Griffith, Gwynfor Davies a'r Clerc.

36.1 DATGAN CYSYLLTIAD – mynegodd Elen Edwards, Diane Roberts, Ann Vaughan ac Ifor Edwards ddiddordeb yn eitem rhif 8 – Ceisiadau Ariannol Amgueddfa'r Cwm a Diane Roberts yn eitem 9 'Tai Fforddiadwy'.

36.2 TOILEDAU LLANGERNYW – yn anffodus oherwydd amgylchiadau teuluol nid oedd Mr Steve Teale, Adran Amgylcheddol yn medru bod yn bresennol. PENDERFYNWYD i gynnal y cyfarfod nos Lun Chwefror 2il am 7 o'r gloch. Enwebwyd Ann Vaughan i fod yn gynrychiolydd y Cyngor ar y prosiect toiledau ond ymddiheurodd na allai fynychu ar 2il Chwefror.

36.3 COFNODION – aethpwyd drwy gofnodion cyfarfod 13eg Ionawr 2015 a chynigiodd Emlyn Williams, eiliodd Tecwyn Evans a PHENDERFYNWYD eu bod yn gywir.

36.4 MATERION YN CODI
36.4.1 MATERION CYNLLUNIO – derbyniwyd ateb i'n dau ymholiad ynglŷn a 'Cheisiadau ôl weithredol' yn ymwneud â chais cynllunio 0/41272 a 'Cheisiadau gyda chaniatâd blaenorol' yn ymwneud â chais 0/41299 fel a ganlyn:

a) Mae Adran 73 o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn caniatáu cyflwyno ceisiadau am waith sydd wedi ei wneud eisoes, h.y. ceisiadau ôl-weithredol (retrospective applications). Mae'n ddyletswydd gyfreithiol ar yr awdurdod i gofnodi a phrosesu ceisiadau o'r fath ac i benderfynu arnynt fel pe baent yn gais cynllunio arferol, drwy eu pwyso a'u mesur yn erbyn ystyriaethau cynllunio megis polisi cynllunio, effaith ar yr ardal/eiddo cyfagos ac ati.
Mae'r cais ar gyfer Hendre Llwyn y Maen 0/41272 wedi'i gyflwyno o ganlyniad i ymchwiliad gorfodaeth a phwrpas y cais ydy ceisio dadwneud torri'r rheoliadau cynllunio. Caiff unrhyw waith a wneir heb ganiatâd cynllunio ei wneud ar fenter y 'datblygwyr' eu hunain a gall fod angen ei altro neu ei adfer i'w gyflwr blaenorol (naill ai'n wirfoddol neu drwy orfodaeth ffurfiol os fydd angen) os na fydd y cais cynllunio'n llwyddiannus.
Dylai'r cyngor cymuned drin ac ymateb i'r mathau yma o gais yn yr un ffordd ag unrhyw gais cynllunio arall. Nid yw'r ddeddf cynllunio'n caniatáu i awdurdod gosbi rhywun sydd wedi dechrau gweithio eisoes, fodd bynnag fel y nodwyd uchod mae modd i'r awdurdod ddefnyddio ei bwerau gorfodaeth i ddadwneud y gwaith os caiff ei ystyried yn annerbyniol.

b) Nid yw cais 'caniatâd blaenorol' (prior approval) yn gais ffurfiol am ganiatâd cynllunio. Mae'r drefn caniatâd blaenorol yn golygu bod rhaid i ddatblygwyr ddweud wrth yr awdurdod cynllunio am eu cynigion cyn iddynt allu manteisio ar hawliau datblygu a ganiateir. Mae'r mathau yma o geisiadau yn cynnwys rhai datblygiadau amaethyddol neu goedwigol, a gall yr awdurdod asesu lleoliad, cynllun ac ymddangosiad y datblygiad

arfaethedig yn unig. Mae gan yr awdurdod 28 diwrnod i wneud penderfyniad, fel arall os na wneir penderfyniad ystyrir bod caniatâd wedi'i roi'n awtomatig.

Ni ellir defnyddio'r broses hon os yw gwaith wedi dechrau eisoes ac mae angen caniatâd ôl-weithredol, rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno cais cynllunio llawn yn yr achosion hyn. Mae'n werth nodi hefyd y penderfynwyd ar y cais uchod ar 2 Ionawr 2015.

36.4.2 MEINCIAU NEWYDD – adroddodd y Clerc bod Mr Kevin Roberts yn gweld bod safle addas i fainc newydd Llangernyw gyferbyn ag Amgueddfa'r Cwm ac roedd wedi gosod y fainc bresennol yn Stad Glan Collen yn sownd. Wedi trafodaeth PENDERFYNWYD gosod mainc newydd Gwytherin yn safle'r fainc ger y ciosg ffôn ac i ofyn i Kevin gael gwared o'r hen fainc oedd wedi torri.

36.4.3 MAST PEN Y FRON, GWYTHERIN – derbyniwyd ateb gan Harlequin Group yn nodi eu bod wedi cael caniatâd cynllunio ac y bydd pethau ar y gweill yn fuan. Roedd y cynllun yn rhan o brosiect mwy ac roedd y tywydd yr adeg hon o'r flwyddyn yn arafu pethau. Mynegodd Mr Osborne y byddai'n dod yn ôl atom gyda mwy o fanylion yn fuan.

36.5 TORRI MYNWENTYDD Y CYNGOR – wedi trafodaeth PENDERFYNWYD hysbysebu am brisiau torri'r mynwentydd am y ddwy flynedd nesaf. Hefyd i ofyn am ddau bris – un yn cynnwys torri'r gwair yn unig a'r llall yn cynnwys hel y gwair yn y toriad cyntaf a'i adael yn y gweddill. Pwysleisiwyd bod llai o waith erbyn hyn gan ein bod wedi cwblhau gwaith gwastadau yn y mynwentydd.

36.6 CEISIADAU ARIANNOL
36.6.1 AELWYD 7-9 BRO CERNYW – PENDERFYNWYD i gyfrannu £500 allan o Gronfa Bro Cernyw. Hefyd awgrymwyd iddynt gysylltu â Grŵp Cynefin a Chartrefi Conwy am grantiau.
36.6.2 AELWYD BRO CERNYW – oherwydd bod y pris a gafwyd yn sylweddol awgrymwyd eu bod yn holi am fwy o brisiau cystadleuol am y Cwrs Hylendid Bwyd e.e. gan Glasdir neu Goleg Llandrillo neu'r Bwrdd Hyfforddi Amaethyddol.
36.6.3 AMGUEDDFA'R CWM – angen gofyn rhai cwestiynau ynglŷn a'r cais e.e. fydd y bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn lleol; ydy'r prisiau ffilmio yn gystadleuol ac fel arfer mae angen 3 phris os yw'r swm dros £1000. PENDERFYNWYD ei adael tan y cyfarfod nesaf.

36.7 GOHEBIAETH – y Clerc i anfon peth gohebiaeth ar ebost i'r cynghorwyr ac i sôn am yr eitem 'Trwydded Gwn' yn y cylchlythyr.

36.8 HWYLUSYDD TAI GWLEDIG – derbyniwyd gohebiaeth gan Buddug Williams y swyddog newydd. PENDERFYNWYD gofyn iddi pryd oedd tai fforddiadwy yn dod i stad tai Llangernyw a beth oedd y datblygiadau diweddaraf gyda thir yn Llangernyw.

36.9 NEWIDIADAU PWYSIG I GEISIADAU AM DAI CYMDEITHASOL – derbyniwyd llythyr o'r adran dai a PHENDERFYNWYD holi a yw pobl leol yn cael blaenoriaeth ar y rhestr ac a ydy'r iaith yn cael ystyriaeth. Hefyd a ydynt yn parhau i roi Section 38 ar y tai newydd,.h.y. bod pobl leol o fewn ardal benodol yn cael byw yno yn unig. Angen anfon copi o'r ebost at Cyng Dilwyn Roberts hefyd.

36.10 MATERION LLEOL
36.10.1 Diffyg glanhau ochr y ffordd ar ffordd fain Plas yn Blaenau a'r dŵr yn bwyta mewn iddi.
36.10.2 Llwybr o Llais Afon am y llan angen ei glirio.

36.10.3  Baw cŵn o'r bont fach i fyny am yr ysgol.
36.10.4  Angen holi pwy sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ffyrdd yn yr ardal hon yn swyddfa Llanrwst.
36.10.5  Angen symud hysbysfwrdd Gwytherin – ei drafod y tro nesaf.
36.10.6  Twll ger mynedfa Bryn yr Aur yn beryglus iawn – angen sôn wrth yr Adran Ffyrdd eto.
36.10.7  Pwyllgor Mynwentydd – nos Lun Chwefror 2il am 7.30yh yn dilyn y cyfarfod toiledau.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.05 yh.

*Cymeradwywyd y Cofnodion .....Elen H Edwards.........................   Dyddiad ...10/3/15....................*

---

Community Council Meeting held Wednesday, January 28th 2015 at 7.30 pm in Canolfan BroCernywl

Apologies: Cllr D O Roberts, Steve Teale

Present: Elen H Edwards (Chair), Diane M Roberts, Tecwyn Evans, Ann O Vaughan, R Emlyn Williams, Ifor G Edwards, Gwyn Williams, Ian W Griffith, Gwynfor Davies, Clerk.

36.1 DECLARATION - Elen Edwards, Diane Roberts, Ann Vaughan and Ifor Edwards expressed interested in item number 8 - Financial Applications Cwm Museum and Diane Roberts in item 9 'Affordable Housing'.

36.2 TOILET LLANGERNYW - unfortunately due to family circumstances Mr Steve Teale, Environment Department was unable to be present. RESOLVED to hold the meeting Monday 2nd February at 7pm. Ann Vaughan nominated to be the Council's representative on the toilets project but could not attend apologized on 2nd February.

36.3 Minutes - minutes of January 13, 2015 were discussed and proposed by Emlyn Williams, seconded Tecwyn Evans and RESOLVED that they are accurate.

36.4 MATTERS ARISING
36.4.1 PLANNING - received two replies to our enquiry and 'Applications retrospective' relating to a planning application 0/41272 and 'Applications with prior consent' relates to an application 0/41299 as follows:
a) Section 73 of the Town and Country Planning Act allows the submission of applications for work that has already been done, ie Retrospective applications. It is the legal duty of the authority to record and process such applications and to determine if they were planning application as usual, by weighing them against planning considerations such as policy planning, the impact on the area / property etc. nearby.
The application for Hendre Llwyn y Maen 0/41272 has been introduced as a result of investigation and enforcement is trying to undo the purpose of the application breach

planning regulations. Any work done without planning permission is made on the initiative of the 'developers' own and may need to be altered or restored to its previous state (either voluntarily or by coercion if necessary) if the planning application is not successful.
The community council handle and respond to these types of applications in the same way as any other planning application. There is no legal authority to punish someone who has started to work, however as noted above it is possible to use its powers of enforcement to undo the work if it is considered unacceptable.

b) does not apply 'prior consent' is a formal application for planning permission. The procedure prior consent means that developers have to tell the planning authority of their proposals before they can take advantage of permitted development rights. These types of applications including some agricultural development or forestry, and the authority can assess the location, layout and appearance of the proposed development only. Authority has 28 days to make a decision, if not otherwise considered decision that permission has been granted automatically.
This process can not be used if the work has already started and need retrospective consent, the applicant must submit a full planning application in these cases. It is also worth noting that the above application was decided on January 2, 2015.

36.4.2 NEW BENCHES - The Clerk reported that Mr Kevin Roberts found that a suitable site for a new bench Llangernyw adjacent to Valley Museum and had set the current bench Glan Collen Estate safe. After discussion it was decided to fix a new bench in Gwytherin near the site of a telephone kiosk and ask Kevin to get rid of the old bench that was broken.

36.4.3 PEN Y FRON MAST, GWYTHERIN – message received from Harlequin Group indicates that they have planning permission and that things are in the pipeline. The plan is part of a larger project and the weather at this time of year is slowing down the work. Mr Osborne stated that he would come back with more details soon.

36.5 CUTTING THE COUNCIL CEMETERY - following discussion it was decided to advertize for tenders to cut the cemeteries for the next two years. Also to ask for two prices - one contains only cut the grass and the other includes the gathering grass in the first cut and leave the rest. Emphasized that there is less work now because we have completed work and leveled the cemeteries.

36.6 FINANCIAL APPLICATIONS
36.6.1 AELWYD 7-9 BRO CERNYW - RESOLVED to donate £ 500 out of the Bro Cernyw Fund. Also suggested them to contact Grwp Cynefin and Cartrefi Conwy for grants.
36.6.2 AELWYD BRO CERNYW - because the price obtained was significantly high suggested that they ask for more competitive prices for the Food Hygiene Course eg by Glasdir or Llandrillo College or the Agricultural Training Board.
36.6.3 CWM MUSEUM - need to ask some questions about the application eg The young people taking part are local?; is filmed prices competitive and usually need 3 quotes if the amount is over £ 1000. RESOLVED leave it until the next meeting.

36.7 CORRESPONDENCE - the Clerk to send some email correspondence to councilors and to mention the item 'Gun Licence' in the newsletter.

36.8 RURAL HOUSING ENABLER - correspondence from the new officer Buddug Williams was received. RESOLVED to ask when affordable housing was coming to housing estate in Llangernyw and what were the latest developments with land in Llangernyw.

36.9 IMPORTANT CHANGES TO REQUEST FOR SOCIAL HOUSING - a letter was received from the housing department and RESOLVED to question whether local people have priority on the list and if the language is being considered. And do they also continue to put Section 38 on the new housing, Ie that local people within a particular area only can occupy. Need to send a copy of the email to Cllr Dilwyn Roberts also.

36.10 LOCAL ISSUES
36.10.1 Lack of cleaning the side of the road on the Plas yn Blaenau road - water and eatin into it.
36.10.2 Path from Llais Afon to the church needs to be cleared.
36.10.3 Dog fouling near the small bridge up for school.
36.10.4 Need to ask who is responsible for road maintenance in this area in Llanrwst office.
36.10.5 Need to move Gwytherin noticeboard - discuss it next time.
36.10.6 Hole at the entrance to the Bryn yr Aurl is very dangerous - need to tell the Department of Roads again.
36.10.7 Cemetery Committee - Monday 2nd February at 7.30pm following the toilets meeting.

The meeting ended at 9.05 pm.

Minutes were approved *Elen H Edwards* Date ...*10/3/15*.................................